Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau Bridio Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

**DYDDIAD** **4 Rhagfyr 2018**

**GAN** **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip**

**Rheoliadau Bridio Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad y Comisiwn (EC) 2016/1012
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/716
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/717
- Rheoliad Dirprwyedig gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1940
- Cytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae Iechyd a Lles Anifeiliaid yn faes lle y mae cyfrifoldeb wedi cael ei ddatganoli.

Mae darpariaeth yn yr OS hwn sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau o ran Cymru yn ddilyffethair ac i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau o ran Cymru.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol â chydsyniad yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, bod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**
Amcan y Rheoliadau hyn o ran polisi yw sicrhau bod y drefn sootechnegol yn parhau'n gymwys yn y DU. Gellir cyflawni'r amcan hwnnw drwy gynnwys deddfwriaeth gyfredol yr UE yng nghyfraith y DU. Er enghraifft, mae penderfyniadau i gydnabod ac i gymeradwyo busnesau sootechnegol a'u gweithrediadau yn cael eu cymryd ar ran Comisiwn yr UE ac o dan ei gyfarwyddyd. Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, bydd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau’n cael eu gwneud gan bob awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru). Bydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud ar sail telerau a fydd yn

adlewyrchu telerau'r UE. Gan nad oes unrhyw newid polisi, ni fydd unrhyw effaith ar fusnesau.

Mae'r cywiriadau'n caniatáu i'r awdurdod priodol ragnodi'r hyn y mae'n rhaid i fusnesau bridio pedigri ei wneud er mwyn cael eu 'cydnabod yn swyddogol'. Maent yn caniatáu hefyd i'r awdurdod priodol ragnodi pa weithgareddau y cânt ymgymryd â hwy er mwyn bodloni'r meini prawf sootechnegol (a elwir yn 'rhaglen fridio') yn y rheoliad.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-animal-breeding-amendment-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.